# CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

# A GYNHALIWYD AR 16 MEHEFIN 2015 YN NHŶ HASTINGS.

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; a, Mr David Powell.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr David Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Tom Jenkins (Swyddog Arolygu); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygu); Mr Ralph Handscomb (Swyddog Arolygu); a Mrs Catherine Thomas (Cynorthwydd Arolygu)

**Ymddiheuriadau:** Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes)

**Amser dechrau:** 9:30 am
**Amser gorffen:** 11:10am

## 1. Datganiadau o fuddiant

1.1. Arolwg Cymunedol Rhondda Cynon Taf: Roedd y Swyddog Arolygu sy'n cynnal yr arolwg wedi datgan buddiant fel preswylydd ac etholwr yn ward Pentre'r Eglwys yn Llanilltud Faerdref, a'i fod wedi byw y drws nesaf i gynghorydd y ward hon ers 20 mlynedd. Nododd y Comisiwn y datganiad.

## 2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

2.1. Cyhoeddodd y Cadeirydd y cytunwyd ar y Ddogfen Fframwaith a bod y Comisiwn wedi derbyn copi wedi'i lofnodi erbyn hyn.

2.2. Crybwyllodd y Cadeirydd y cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer dau aelod ychwanegol o'r Comisiwn.

2.3. Disgwyliwyd i gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu Llywodraeth Leol gael eu cyhoeddi yn ystod yr wythnos a oedd ar ddod.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 14 Mai 2015

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mai 2015.

## 4. Materion yn codi

4.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 8 Mehefin gan y Prif Weithredwr ar faterion yn codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad yn ei gyfanrwydd, a nodwyd y cynnydd diweddaraf ar y materion canlynol:

- (Mater 1) Strategaeth TG – rhoddwyd diweddariad llafar a theimlwyd bod y Strategaeth TG wedi cyrraedd cam datblygedig erbyn hyn ac y gellid ei thynnu oddi ar y rhestr Materion yn codi a'i monitro, fel y bo'n briodol. **Ralph Handscomb**

- (Mater 2) Holiadur ôl-arolwg Sir Benfro – mae'r ymatebion yn cau ar ddiwedd mis Mehefin. Caiff dadansoddiad o'r ymatebion ei gyflwyno yn y cyfarfod ar 21 Gorffennaf 2015. **Ralph Handscomb**

- (Mater 3) Holiadur Cyffredinol – i'w ddatblygu i'w ddosbarthu'n ddiweddarach. **Ralph Handscomb/Steve Halsall**

- (Mater 4) Arolygon prif ardaloedd – caiff cyfarwyddiadau desg eu diweddaru. Tachwedd 2015. **Matt Redmond**

- (Mater 5) Maint Cynghorau Cymuned – i'w ystyried ymhellach ar ôl i LlC ystyried democratiaeth leol. **Steve Halsall**

- (Mater 6) Arolygon Cymunedol – mae cyfarwyddiadau desg yn cael eu profi wrth i'r gwaith gael ei gwblhau. Parhaus. **Matt Redmond**

- (Mater 7) Pwerau i wneud Gorchmynion Cymunedol – ystyried y goblygiadau a chymryd y camau gweithredu gofynnol. Gohiriwyd hyn nes bydd y pwerau'n ofynnol. **Steve Halsall/Matt Redmond**

- (Mater 8) Cyfarfod y Grŵp Cynllunio Etholiadau – cyfarfod nesaf fis Hydref 2015. **Steve Halsall**

- (Mater 9) Cynllunio Arolygon Etholiadol – i'w ddatblygu ymhellach ar ôl cael cynigion Llywodraeth Cymru. Mehefin 2015. **Matt Redmond**

- (Mater 10) Teithio a Chynhaliaeth – ymchwilio i yswiriant. Mehefin 2015. **Matt Redmond/Rachel Williams/Ross Evans**

- (Mater 12) Dogfen Fframwaith – derbyniwyd copi wedi'i lofnodi. **Steve Halsall**

- (Mater 14) Gwasanaethau Cyfreithiol – mae Swyddfa'r Cabinet wedi rhoi caniatâd i ymestyn y contract â TSol. Rydym yn aros am ymateb gan TSol o hyd. **Rachel Williams**

- (Mater 15) Penodi Comisiynwyr – helpu LlC â'r broses benodi. Medi 2015. **Steve Halsall**

- (Mater 16) Arolwg Cymunedol Rhondda Cynon Taf – adroddiad terfynol i'w gyhoeddi. Mehefin 2015. **Tom Jenkins**

- (Mater 18) Un Llais Cymru – gwahoddwyd Cadeirydd y Comisiwn i siarad yng Nghynhadledd Cynghorau Mwy Un Llais Cymru yn Llanfair ym Muallt ar 8 Gorffennaf 2015.

**Materion newydd yn codi**

- Cyfarfod Rhyng-gomisiynol – pennwyd dyddiad dros dro o 17/18 Tachwedd ac mae Comisiynau Cymru wedi ymateb i'r gwahoddiad.

- Ymchwiliad Safonau'r Gymraeg – cafwyd adroddiad ar yr ymchwiliad. Caiff dadansoddiad ei baratoi i'w ystyried yn y cyfarfod ar 21 Gorffennaf. **Steve Halsall**

- Gweithdy Arolygon Cychwynnol – ar gyfer yr holl staff a Chomisiynwyr, 10:30am, 23 Mehefin 2015. **Steve Halsall/Matt Redmond**

## 5. Cofnodion Is-bwyllgor y Gweithlu a gynhaliwyd ar 14 Mai 2015

5.1. **Penderfynwyd** nodi'r adroddiad. Caiff cyfarfod arall o Is-bwyllgor y Gweithlu ei gynnal ym mis Gorffennaf 2015.

## 6. Arolwg Cymunedol Sir y Fflint

6.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 20 Mai 2015 gan y Swyddog Arolygu. Roedd yr adroddiad yn dadansoddi'r ymatebion a gafwyd yn dilyn cyfnod ymgynghori cyfyngedig o 12 wythnos ar y cynnig ar gyfer ardal Mynydd y Fflint.

6.2. **Nododd** y Comisiwn y dadansoddiad o'r 31 o sylwadau a gafwyd a'u cynnig dewisol ar gyfer ardal Mynydd y Fflint.

6.3. **Penderfynwyd** cytuno ar ganlyniadau'r Adroddiad Ymgynghori a'r cynnig i gynnal y trefniadau cymunedol presennol ar gyfer ardal Mynydd y Fflint. **Gweithredu: Swyddog Arolygu**

## 7. Adroddiad Blynyddol Cynllun yr Iaith Gymraeg 2014-15

7.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 15 Mai 2015 gan y Swyddog Arolygu.

7.2. **Penderfynodd** y Comisiwn gymeradwyo'r adroddiad blynyddol a luniwyd i gydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg, yn amodol ar fân newidiadau.

7.3. **Trafododd** y Comisiwn yr adborth a gafwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, a oedd yn canolbwyntio ar ei ymateb i'r Ymchwiliad Safonau'r Gymraeg a'i Bolisi Cymraeg, ac ystyried camau'r dyfodol sy'n gysylltiedig â mabwysiadu adroddiad blynyddol y Cynllun Iaith.

7.4. **Penderfynwyd** aros am adroddiad pellach ar effaith y safonau ar waith y

Comisiwn.

## 8. Adroddiad Blynyddol 2014-15

8.1. Ystyriwyd yr Adroddiad Blynyddol drafft, dyddiedig 4 Mehefin 2015, gan y Prif Weithredwr. Roedd y drafft yn cynnwys data ariannol dan ystyriaeth, a gaiff ei ddiweddaru ar ôl archwiliad, felly penderfynwyd nodi a thrafod prif gorff yr Adroddiad Blynyddol.

8.2. **Nododd** y Comisiwn brif gorff yr adroddiad ac awgrymwyd y newidiadau canlynol.

- Adran 2.1 – cynnwys "(*i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn ddiweddar*)"
- Adran 2.6 – cynnwys datganiad yn cadarnhau bod y rhaglen deng mlynedd wedi'i gohirio ar hyn o bryd, yn amodol ar gyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ar ad-drefnu awdurdodau lleol yng Nghymru.
- Adran 6.1 – Cywiro "Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru", i *Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.*

8.3. **Penderfynodd** y Comisiwn gytuno ar yr Adroddiad â'r newidiadau uchod ac aros am fersiwn gyfredol wedi i'r data ariannol cyfredol gael ei gynnwys.
**Gweithredu: Prif Weithredwr**

## 9. Porth Ymgynghori Ar-lein

9.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 8 Mehefin 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr ynghylch y porth ymgynghori ar-lein, sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio gan y Comisiynau yn Lloegr a'r Alban.

9.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a'r achos busnes cysylltiedig, a roddwyd at ei gilydd yn dilyn argymhelliad a ddarparwyd yng nghyfarfod cyswllt Llywodraeth Cymru ar 19 Mai 2015.

9.3. **Trafododd** y Comisiwn yr achos busnes, camau yn y dyfodol ac unrhyw faterion posibl a all godi yn ystod y broses dendro. Penderfynwyd gwneud mân newid i eiriad yr adroddiad, yn yr adran Costau. Hefyd, cytunodd y Comisiwn y byddai lle yn cael ei gynnig i Lywodraeth Cymru i eistedd ar y bwrdd tendro, os yw'n dymuno gwneud hynny.

9.4. **Cytunwyd** cyflwyno'r cynigion wedi'u costio i Lywodraeth Cymru, ac aros am ymateb i'r achos busnes hwn cyn symud ymlaen i'r cam caffael.
**Gweithredu: Dirprwy Brif Weithredwr**

## 10. Gorchymyn Banc ac Awdurdodi Taliadau

10.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 28 Mai 2015 gan y Rheolwr Cyllid.

10.2. Adolygodd y Comisiwn y gofyniad blaenorol ar gyfer gorchmynion banc ar gyfer llofnodwyr lluosog, a nododd ei fod yn gwrthdaro â'r trefniant bancio ar-lein ar gyfer lefel awdurdodiad â llofnodwr unigol. Crybwyllwyd mai'r camau gweithredu sydd ar gael i'r Comisiwn fyddai naill ai newid y gorchymyn banc i ganiatáu awdurdodiad unigol neu newid y trefniadau bancio ar-lein i fynnu awdurdodiadau lluosog.

10.3 Roedd y Comisiwn o'r farn bod rheolaethau atodol digonol ar waith, fel storio eitemau banc mewn diogel a mynnu llofnodau papur lluosog ar gyfer awdurdodi taliadau. Roedd hefyd o'r farn y byddai mynnu awdurdodiadau lluosog ar gyfer taliadau bancio ar-lein mewn corff mor fach â'r Comisiwn yn gwneud prosesu taliadau yn aneffeithlon ac yn destun oedi pe byddai aelodau staff uwch yn absennol am gyfnodau hir. Roedd caniatáu gosod lefel yr awdurdodiad ar gyfer taliadau banc ar lefel un llofnodwr yn cyflwyno'r cydbwysedd gorau rhwng effeithlonrwydd a rheolaeth. **Cytunodd** y Comisiwn i awdurdodi llofnodi'r gorchymyn banc i un o'r sawl llofnodwr awdurdodedig, ar gyfer awdurdodi taliadau banc a thrafodion.

## 11. Rheoli Risg

11.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 3 Mehefin 2015 gan y Rheolwr Cyllid.

11.2. Roedd y Comisiwn o'r farn bod y Gofrestr Risg bresennol yn adlewyrchu'r risgiau i amcanion y Comisiwn yn gywir, ac felly nid oedd angen unrhyw newidiadau.

11.3. **Nodwyd** y Gofrestr Risg.

## 12. Adroddiad ar y Gyllideb

12.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 3 Mehefin 2015 gan y Rheolwr Cyllid.

12.2. **Nododd** y Comisiwn y sefyllfa o ran y gyllideb ar ddiwedd mis Mai 2015, a'r tanwariant o £17,000, sydd o ganlyniad i swydd wag barhaus yn bennaf, er y gwnaed penodiad ac y disgwyliwyd i'r aelod staff newydd ymgymryd â swydd Swyddog Arolygu ddechrau mis Awst 2015. Roedd tanwariant arall a nodwyd, fel cyfieithu, argraffu a phostio, o ganlyniad i gyllid a fyddai'n cael ei wario ar y gwaith arolygu sydd ar ddod. Roedd rhai mân enghreifftiau o orwario hefyd, ond disgwyliwyd i'r rhain fod yn ôl o fewn y gyllideb dros yr ychydig fisoedd nesaf.

12.3. Crybwyllwyd y byddai rhywfaint o'r tanwariant yn cael ei wario oherwydd y byddai angen gwariant sylweddol o oddeutu £4,000 ar hyfforddi Swyddogion Arolygu i ddefnyddio meddalwedd newydd MapInfo fersiwn 12.5, ynghyd â hyfforddi'r Swyddog Arolygu newydd ar ddefnyddio MapInfo.

## 13. Adroddiad Cynnydd ar Arolygon

13.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 9 Mehefin 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

13.2. Rhoddodd y Dirprwy Brif Weithredwr ddiweddariad i'r Comisiwn ar statws presennol yr holl arolygon, a chrybwyllodd fod yr anghysondeb a ddarganfuwyd yn ddiweddar yn yr Arolwg Pellach o Drefniadau Etholiadol ar gyfer Prestatyn, a gyhoeddwyd yn 2013, wedi ei gywiro.

13.3. Bydd y Comisiwn yn ystyried fersiwn ddrafft yr Adroddiad Cynigion Terfynol ar Arolwg Cymunedol Sir y Fflint yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Gorffennaf. Caiff yr adroddiad drafft (gan gynnwys y mapiau) ei anfon at y Comisiynydd Arweiniol cyn y cyfarfod hwnnw.

13.4. Nododd y Comisiwn y byddai'r Comisiynydd Arweiniol yn ystyried Adroddiad Cynigion Terfynol Rhondda Cynon Taf cyn iddo gael ei gyhoeddi.

## 14. Calendr Digwyddiadau

14.1. **Nodwyd** y calendr.

14.2. Trafododd y Comisiwn yr opsiynau gorau ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn yn 2016 i fodloni'r rhaglen arolygon yn y dyfodol. Byddai rhaglen ddrafft yn cael ei hystyried maes o law.

## 15. Unrhyw fater perthnasol arall

15.1. Nododd y Comisiwn yr ohebiaeth a gafwyd trwy gynllun Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru. Nid oedd y Comisiwn yn gallu amlygu maes lle y gellid defnyddio'r cynllun hwn.

15.2. Cadarnhaodd y Comisiwn fod Mrs Julie James wedi'i hailbenodi'n aelod annibynnol am gyfnod o ddeuddeg mis, ac y caiff llythyr ei anfon ati yn cadarnhau'r ailbenodiad hwn.

15.3. Rhoddodd y Comisiynwyr ganiatâd i'w cyfeiriadau e-bost gael eu rhoi i Academi Cymru ar gyfer cyrsiau hyfforddiant.

## 16. Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Mawrth 21 Gorffennaf 2015